# Gyrru pâr o geffylau at ddibenion masnachol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â gallu gyrru pâr o geffylau at ddibenion masnachol. Mae'n cynnwys gallu dewis ceffylau ar gyfer gwaith masnachol yn unol â'u gallu corfforol a'u ffitrwydd, natur, profiad ac ymddygiad.

Byddwch yn gallu paru pâr o geffylau gyda'i gilydd o ran eu gallu corfforol, eu natur a'u hyfforddiant. Byddwch yn gallu dewis a gosod harnais ar gyfer ystod o ddibenion masnachol, a dewis o ystod o gerbydau addas sydd yn cael eu tynnu gan geffylau. Byddwch yn deall sut i sefydlu ac addasu'r harnais i gael y perfformiad gorau.

Mae'r safon yn cynnwys gallu cyfeirio gweithgareddau'r criw o weision ceffyl harnais tra'n paratoi ceffylau i gael eu gyrru, gosod offer arnynt/eu cymryd allan a thra'n gyrru.

Mae'r safon yn cynnwys gallu gyrru pâr o gefylau at ddibenion masnachol arbenigol, a sicrhau eu bod yn cael eu hyfforddi ac yn ymgyfarwyddo â gweithio mewn ystod o sefyllfaoedd masnachol.

Bydd angen i chi fod yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd iechyd, diogelwch a lles anifeiliaid mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn.

Bydd angen i chi sicrhau eich diogelwch eich hun ac eraill, a lles y ceffylau, yr holl amser.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. nodi'r dibenion masnachol y defnyddir y pâr o geffylau ar eu cyfer
2. sicrhau bod dillad ac offer amddiffynnol personol priodol yn cael eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd
3. asesu natur ceffylau unigol, a gwerthuso eu haddasrwydd ar gyfer ystod o ddibenion masnachol
4. sicrhau bod ceffylau'n cael eu hyfforddi i weithio yn agos at wylwyr, torfeydd, ceffylau eraill, ac i ymdopi â ffotograffiaeth fflach, y defnydd o ddronau ac amhariadau eraill
5. paru parau o geffylau am eu gallu corfforol, natur, hyfforddiant ac ymddygiad
6. dewis cerbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau ar gyfer ystod o ddibenion sydd yn addas at y diben masnachol a fwriedir
7. dewis a gosod harnais ar y ceffylau
8. cynnal gwiriadau fel mater o drefn cyn gyrru ar geffylau, harnais a cherbydau
9. cyfeirio gweithgareddau'r criw o weision ceffyl harnais i gynorthwyo gyda'r gwaith o gynnal iechyd a lles y ceffylau, teithwyr, gwylwyr a defnyddwyr eraill y ffordd a'r ardal
10. gyrru parau o geffylau at ddibenion masnachol yn unol â gofynion a chodau ymarfer deddfwriaethol ar gyfer gyrru ceffylau harnais masnachol, a chan ystyried defnyddwyr eraill y ffordd
11. monitro ymddygiad y ceffylau tra'n gyrru, a chymryd camau cadarnhaol i leihau eu straen a chynnal eu lles
12. sicrhau bod cofnodion priodol hyfforddiant yn cael eu cadw a'u storio yn unol â gofynion deddfwriaeth berthnasol a'r sefydliad yr ydych yn gweithio iddo
13. asesu peryglon a rheoli'r risg i chi eich hun ac eraill mewn cysylltiad â'r gweithgaredd hwn

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

### *Mae angen i chi wybod a deall:*

1. eich rôl a'ch cyfrifoldebau yn gyrru parau o geffylau at ddibenion masnachol
2. y dillad a'r offer amddiffynnol personol y dylid eu gwisgo ar gyfer y gweithgaredd
3. sut i asesu ffitrwydd a gallu ceffylau unigol ar gyfer gwaith masnachol
4. sut i asesu natur ac ymddygiad ceffylau unigol
5. sut i hyfforddi ceffylau i weithio'n agos i wylwyr, torfeydd, ceffylau eraill, ac i ymdopi â ffotograffiaeth fflach, y defnydd o ddronau ac amhariadau eraill
6. sut i ddewis ceffylau i weithio gyda'i gilydd fel pâr
7. sut i bennu ar ba ochr y polyn y dylai pob ceffyl weithio
8. sut i ddewis, gosod, sefydlu ac addasu'r harnais i gael y perfformiad gorau
9. sut i ddewis cerbydau sy'n cael eu tynnu gan geffylau masnachol addas
10. sut i fonitro ceffylau unigol wrth yrru
11. sut i leihau straen a sut i hybu lles ceffylau tra'n gyrru
12. sut i gyfeirio'r criw o weision ceffyl harnais i gynorthwyo'n effeithiol i gadw rheolaeth, a diogelwch a lles ceffylau a theithwyr tra'n gyrru
13. sut i reoli diogelwch gwylwyr a chyfranogwyr mewn gweithgareddau masnachol tra'n gyrru
14. y gofynion deddfwriaethol a chodau ymarfer yn ymwneud â gyrru parau o geffylau ar y briffordd gyhoeddus at ddibenion masnachol
15. pwysigrwydd hyfforddi ceffylau i ymdopi a golygfeydd, synau ac offer anarferol a ddefnyddir gan ffotograffwyr ac eraill
16. pwysigrwydd sefydlu a chadw cofnodion o hyfforddiant ceffylau
17. y perygl i geffylau, i chi eich hun ac eraill a sut i reoli'r rhain
18. eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth a chodau ymarfer iechyd a lles anifeiliaid ac iechyd a diogelwch perthnasol

Gyrru pâr o geffylau at ddibenion masnachol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2021 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANEq241 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Rheolwr Ceffylau |
| **Cyfres/Set** | Ceffylau |
| **Geiriau Allweddol** | ceffylau; ceffyl; busnes; harnais |